# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2015

Amser: 08.30 - 08.36

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Roedd Richard Ward, Clerc y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, yn bresennol yn y cyfarfod fel rhan o ymweliad deuddydd â'r Cynulliad tra bod y Senedd wedi cael ei diddymu.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i’w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes ddydd Mawrth a dydd Mercher.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu’r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 20 Mai 2015 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar helpu pobl ifanc i gael gwaith (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Y Bil Amgylchedd (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad, mewn egwyddor, ar 29 Ebrill i gyfeirio'r Bil Amgylchedd (Cymru) i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1 fyddai 9 Hydref 2015, a'r dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 fyddai 4 Rhagfyr 2015.